# BUSNES L1/2

**Tystysgrif Gyntaf Lefel 1/Lefel 2 BTEC mewn Busnes**

**Pryd gaiff ei gyflwyno:** Un prynhawn yr wythnos dros ddwy flynedd
**Teitl y Cymhwyster:** Tystysgrif Gyntaf Lefel 1/Lefel 2 BTEC mewn Busnes
**Corff Dyfarnu:** Pearson

## Cyflwyniad i'r Pwnc

Mae Tystysgrif Gyntaf BTEC mewn Busnes yn ymwneud â dod â busnes yn fyw, gan gynnig gwybodaeth a dealltwriaeth werthfawr o'r sector Busnes i ddysgwyr, yn ogystal â chynnig cyfleoedd anhygoel ar gyfer dilyniant gyrfa a chynlluniau datblygu. Mae hefyd yn galluogi dysgwyr i weld y byd o'u cwmpas, drwy edrych i mewn i'r Economi, sut mae busnesau yn eich cael chi i brynu eu cynnyrch a hefyd y cyfle i gymhwyso eich gwybodaeth gyda rhedeg eich busnes eich hun!

## Cynnwys y Cwrs

Dyma gymhwyster galwedigaethol, lle mae dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth trwy gymhwyso eu dysgu a'u sgiliau mewn cyd-destun sy'n gysylltiedig â gwaith, a bydd yn galluogi dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain a datblygu sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer y gweithle a bywyd modern. Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys: gwaith tîm; gweithio o friff rhagnodedig; gweithio i derfynau amser; cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol ac ymchwilio i fylchau yn y farchnad, ar gyfer datblygu syniad busnes.

Mae'r cymhwyster hwn yn gyfwerth â DAU TGAU ac mae'n cynnwys wyth uned, sy'n cael eu cwblhau dros ddwy flynedd, gyda thair o'r rhain yn unedau gorfodol sy'n ffurfio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sylfaenol o egwyddorion busnes. Y rhain yw:

1. Menter yn y Byd Busnes
2. Cyllid ar gyfer Busnes (Arholiad)
3. Egwyddorion Marchnata (Arholiad)

Bydd y 5 uned arall yn unedau arbenigol dewisol, gan roi cyfle i ddatblygu a dealltwriaeth ehangach o'r sector busnes ac mae'n cyflwyno ystod ehangach o opsiynau, a bydd y rhain yn ymwneud â Chyllid, Brandio, Rhedeg Eich Busnes Eich Hun a Datblygu Tîm.

## Asesiad

I gyflawni'r cymhwyster, mae'n rhaid i ddysgwyr gwblhau'r unedau i gyd yn llwyddiannus a bydd cael ei asesu trwy ystod o ddulliau gan gynnwys aseiniadau ysgrifenedig, cyflwyniadau, astudiaethau achos a phrosiectau sy'n gysylltiedig â gwaith. Bydd Marchnata a Chyllid yn arholiadau a asesir yn allanol.

## Cyfleoedd Gyrfa

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, gall dysgwyr symud ymlaen yn uniongyrchol i gyflogaeth yn eu dewis faes. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn astudio ymhellach trwy wneud cais am y Diploma Sylfaen Lefel 3 BTEC mewn Busnes neu Safon Uwch.

## Costau

Bydd disgwyl i ddysgwyr wisgo dillad addas ar gyfer gweithgareddau amrywiol a byddant yn cael y cyfle i brynu crys Busnes sy'n costio tua £20.